# DEINIOLEN
## Astudiaeth o gymeriad



Richard Hayman

ar ran

Cyngor Gwynedd

Mawrth 2017

Richard Hayman
*buildings historian & archaeologist*
www.richard-hayman.co.uk

Llechi Cymru
Wales Slate

**Crynodeb**


Paratowyd astudiaeth o nodweddion trefol Deiniolen yn 2017 i ategu'r enwebiad am statws Safle Treftadaeth Byd i Ddiwydiant Llechi Cymru sydd i'w gyflwyno i Gorff Addysgol, Gwyddonol, a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig (UNESCO). Pentref ar dir uchel yng Ngwynedd yw Deiniolen, a godwyd i gartrefu chwarelwyr Chwarel Dinorwig ger Llyn Peris, un o chwareli llechi mwyaf y Gogledd tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Mae'r adroddiad yn amlinellu hanes y gwaith chwarela yn yr ardal a datblygiad Deiniolen a threfgordd gyfagos Clwt-y-bont. Mae'r astudiaeth nodweddion yn edrych ar y patrwm anheddu a'i berthynas â seilwaith y ffyrdd a pherchnogaeth y tir. Gan hoelio sylw ar dai diwydiannol yn bennaf, ond gan gynnwys adeiladau masnachol, diwylliannol a chrefyddol hefyd, mae'n trafod dylanwad yr economi lleol, dyheadau diwylliannol, adeiledd y gymdeithas a defnydd deunyddiau adeiladu, bob un ohonynt wedi cyfrannu at gymeriad arbennig treftadaeth adeiledig y dref. Tanlinellir amrywiaeth cymeriad hanesyddol y dref drwy nodi ardaloedd sydd â chymeriad gwahanol.

Dechreuodd yr aneddiadau yn Neiniolen a Chlwt-y-bont yn y 1820au ar hyd llinell ffordd a rheilffordd chwarel yn y drefn honno, lle roedd y rheiny'n croesi ystadau tirfeddianwyr mentrus a brydlesodd leiniau tir ar gyfer adeiladu. Ystâd y Faenol, o eiddo teulu Assheton Smith, oedd prif dirfeddiannwr yr ardal a pherchennog Dinorwig, ond cafodd Deiniolen a Chlwt-y-bont eu codi ar leiniau tir y tu allan i reolaeth yr ystâd. Mae gan y ddau anheddiad amrywiaeth o stoc dai, o fythynnod unllawr cynnar yn y traddodiad gwledig, i derasau o dai dau-lawr, gan gynnwys rhai o'r tai teras cynharaf yn ardal chwareli'r Gogledd. Mae capeli, eglwys ac ysgolion yn dangos datblygiad Deiniolen a Chlwt-y-bont fel cymunedau cyflawn. Mae pensaernïaeth y capeli yn arbennig yn datgelu uchelgais diwylliannol a ffyniant economaidd y gymuned yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r deunyddiau adeiladu'n cyfrannu llawer at gymeriad y ddau anheddiad, o safbwynt defnydd meini o'r maes, meini nadd ar gyfer adeiladau o statws fel capeli ac eglwys, a thoeon llechi.

Tynnir y themâu amrywiol at ei gilydd i ddangos bod Deiniolen wedi cadw cymeriad cryf a neilltuol sy'n deillio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a hynny ar sail cyfuniad unigryw o dopograffi, hanes economaidd a chymdeithasol, a'r adnoddau naturiol lleol y codwyd ei adeiladau ohonyn nhw. Mae'r adroddiad yn gorffen gydag argymhellion ar ragoriaethau dynodi Ardal Gadwraeth.

**Summary**

An urban-character study of Deiniolen was prepared in 2017 in support of the Wales Slate World Heritage Nomination to be submitted to the United Nations Educational, Scientific and Cultural Organisation (UNESCO). Deiniolen is an upland village in Gwynedd, built to house quarrymen who worked at the Dinorwig Quarry near Llyn Peris, one of the largest slate quarries in North Wales in the nineteenth century.

The report outlines the history of quarrying in the locality and the development of Deiniolen and the adjoining township of Clwt-y-bont. The character study examines the pattern of settlement and its relationship to its existing infrastructure of roads and land ownership. Focussing mainly on industrial housing, but also encompassing commercial, cultural and religious buildings, it discusses the influence of the local economy, cultural aspirations, social structure and the use of building materials, all of which have contributed to the special character of the village's built heritage. The variety of historic character within the village is highlighted by the identification of separate character areas.

Settlement at Deiniolen and Clwt-y-bont began in the 1820s on the line of a quarry road and railway respectively, where they crossed the estates of opportunistic land owners who leased plots for building. The Vaynol Estate of the Assheton Smith family was the dominant landowner in the area, and owner of Dinorwig, but Deiniolen and Clwt-y-bont were built on pockets of land beyond its control. Both settlements contain a variety of housing stock, from early single-storey cottages of rural tradition, to terraces of two-storey houses, including some of the earliest terraced housing in the North Wales slate-quarrying district. The emergence of Deiniolen and Clwt-y-bont as fully-formed communities is marked by the chapels, church and schools. The architecture of the chapels in particular reveals the cultural aspiration and economic prosperity of the community in the second half of the nineteenth century. Building materials contribute much to the character of both settlements, in their use of field stones, quarried stones for the buildings of status such as chapels and church, and slate roofs.

The various themes are drawn together to show that Deiniolen retains a strong and distinctive nineteenth-century character based on its unique combination of topography, economic and social history, and the local natural resources with which its buildings were constructed. The report concludes with recommendations on the merits of designation of Conservation Area status.

DEINIOLEN
Astudiaeth o gymeriad

RICHARD HAYMAN

© Cyngor Gwynedd, 2017

**Cynnwys**

Crynodebau
1 Nod yr astudiaeth .......................................... 1
2 Cyflwyniad .......................................... 1
3 Cefndir Hanesyddol .................................. 2
4 Cymeriad adeiladau .................................. 5
4.1 Arddull a manylion adeiladu ......... 5
4.2 Deunyddiau adeiladu ................. 13
5 Ardaloedd Cymeriad ........................... 17
5.1 Eglwys y plwyf a'r cyffiniau ........................... 17
5.2 Canol y pentref ........................... 18
5.3 Hafod Oleu a Phentre Helen ....................... 20
5.4 Ffordd Deiniol ........................... 21
5.5 Clwt-y-bont (ochr ogleddol) ................. 23
5.6 Rheilffordd Dinorwig ................. 26
5.7 Clwt-y-bont (ochr ddeheuol) ................. 26
5.8 Hen felin llechi ysgrifennu Glandinorwig......... 28
6 Datganiad Arwyddocâd .................................. 28
7 Statws Ardal Cadwraeth .................................. 29
8 Cyfeirnodau .......................................... 32
Atodiad 1: Adeiladau rhestredig yn Neiniolen ................ 33

**Rhestr o'r darluniau**

Ffigwr 1 Map Lleoliad
Ffigwr 2 Manylyn Map Degwm Llanddeiniolen, 1838
Ffigwr 3 Deiniolen ar fap Arolwg Ordnans 1889
Ffigwr 4 Clwt-y-bont ar Arolwg Ordnans 1889
Ffigwr 5 Deiniolen ar fap Arolwg Ordnans 1953
Ffigwr 6 Siop y Gornel
Ffigwr 7 Rhes Fawr ar Stryd Newydd
Ffigwr 8 Cefn Stryd Newydd
Ffigwr 9 Rhes Marian
Ffigwr 10 Rhes Faenol
Ffigwr 11 Ffordd Deiniol
Ffigwr 12 Bro Dawel, Ffordd Deiniol
Ffigwr 13 Eglwys Grist
Ffigwr 14 Capel Cefn y Waun
Ffigwr 15 Capel Ebenezer
Ffigwr 16 Yr hen ysgol anenwadol
Ffigwr 17 Cynfi
Ffigwr 18 Tai yn Stryd y Tabernacl
Ffigwr 11 Tŷ y tu ôl i Green Terrace
Ffigwr 20 Pileri clwydi o lechi wedi'u llifio

Ffigwr 21 Ffensys gerddi crawiau
Ffigwr 22 Wal derfyn melin Glan Dinorwig
Ffigwr 23 Llyfrgell Carnegie
Ffigwr 24 Ardal cymeriad eglwys y plwyf
Ffigwr 14 Wal derfyn capel Cefn y Waun
Ffigwr 26 Canol y pentref ac ardaloedd cymeriad Hafod Oleu a Phentre Helen
Ffigwr 27 Stryd Fawr
Ffigwr 28 Porth y Gogledd
Ffigwr 29 Hafod Oleu
Ffigwr 30 Ardaloedd Cymeriad Ffordd Deiniol a Chlwt-y-bont
Ffigwr 31 Yr hen Ysgol Brydeinig
Ffigwr 32 Mynwent Deiniolen
Ffigwr 33 Capel Libanus
Ffigwr 34 Llwybr cul yng Nghlwt-y-bont
Ffigwr 35 Plas Eryr
Ffigwr 36 Tai ar hyd llinell Rheilffordd Dinorwig
Ffigwr 37 Clwt-y-bont
Ffigwr 38 Tai Glyndŵr
Ffigwr 39 Melin llechi ysgrifennu Glandinorwig
Ffigwr 40 Cwlfertiau ym melin llechi ysgrifennu Glandinorwig
Ffigwr 41 Ffin arfaethedig Ardal Gadwraeth Deniolen
Ffigwr 42 Ffin Ardal Gadwraeth bosibl yng Nghlwt-y-bont
Ffigwr 43 Adeiladau rhestredig yn Neiniolen

**Cydnabyddiaeth**

Darparwyd y mapio hanesyddol gan RCAHM Cymru, o dan drwydded OS RCPL2/3/58/005. Darparwyd mapio cyfoes gan Gyngor Gwynedd o dan drwydded OS: © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans 100023387 2017. Rhoddwyd caniatâd i ddefnyddio'r darluniau gan Archifau Gwynedd.

## 1 Nod yr astudiaeth

Mae cymeriad hanesyddol yn cyfleu hunaniaeth, mae'n creu ymdeimlad o berthyn ac mae'n cyfrannu at ansawdd y llefydd rydym yn byw, yn gweithio ac yn ymweld â hwy. Gall hefyd fod yn ased i fywiogrwydd ac adfywiad economaidd. Mae amddiffyn a chynnal cymeriad lleol yn effeithiol yn gofyn am sylfaen o dystiolaeth gref sy'n trwytho gweithgarwch adfywio, cadwraeth, cynllunio a dylunio, ac mae'n ategu penderfyniadau a wnelont â chadwraeth, rheoli ac addasu ar gyfer newid.

Mae datblygu astudiaethau cymeriad ar gyfer aneddiadau o gymorth i sefydlu sylfaen o dystiolaeth gref ar gyfer polisïau cynllunio lleol a bydd yn elfen allweddol o gefnogaeth wrth reoli'r aneddiadau arfaethedig hyn at y dyfodol.

Diben cyntaf yr astudiaeth hon yw darparu tystiolaeth i gefnogi un agwedd o enwebiad Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru. Nod yr enwebiad fydd cyfleu'r gwerth pwysig y mae anheddiadau'n eu chwarae yng ngwerth eithriadol gyffredinol y safle. Mae Deiniolen yn un o'r anheddiadau a ddetholwyd ar gyfer yr astudiaeth gan ei fod yn meddu ar gymeriad unigryw sy'n datgelu agweddau penodol o ddatblygiad y diwydiant llechi a'r economi, y gymdeithas a'r diwylliant a grëodd.




*Ffigwr 1 Map Lleoliad.*


## 2 Cyflwyniad

Pentref ar dir uchel yn Eryri, Gwynedd, ychydig dros 200 metr uwchlaw'r môr, yw Deiniolen, gyda maestref anghysbell Clwt-y-bont ar ei ochr ddeheuol (ffigwr 1). Mae'r ddwy anheddiad y tu mewn i Ardal o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dinorwig. Saif Deiniolen ynghanol llethrau gweundirol ochr ogleddol Llyn Padarn ac, yn anghyffredin ymysg anheddiadau'r diwydiant llechi, nid oes ganddo berthynas weledol â Chwarel Dinorwig ble byddai ei drigolion yn gweithio gan fwyaf. Mae'r hen chwarel oddeutu 1.8 milltir (3 cilomedr) tua'r de ddwyrain, yn agos at Lyn Padarn. Ar gyrion y pentref ceir tirwedd o gaeau bychain, gydag ambell i anheddiad gwasgaredig ar ymyl y ffordd, a chefndir o rostir

creigiog tua'r de. Mae afon Caledffrwd yn dynodi ffin ledgywir i ddwyrain Deiniolen, ond mae Clwt-y-bont wedi'i adeiladau ar ddwy ochr yr afon. Mae'r tir ar lethr sydd ar ogwydd o'r gogledd i'r de, yn fras, gan olygu bod yna olygfeydd o'r mynyddoedd tuag at yr Wyddfa yn y de o bron bob rhan o'r pentref.

**3 Cefndir Hanesyddol**

Sefydlwyd Deiniolen a Chlwt-y-bont gan ac ar gyfer chwarelwyr Dinorwig. Cyn cau ffiniau plwyf Llanddeiniolen ym 1808, fodd bynnag, porfa tir uchel, anghyfannedd oedd y tir ble adeiladwyd yr anheddleoedd. Bryd hynny, roedd nifer o ystadau yn berchen ar dir uchel, Ystâd y Faenol gan deulu Assheton Smith yn bennaf, ond roedd ystadau bychain hefyd megis Coed Helen a Chaeau Uchaf, a ddaeth yn gnewyllyn yr anheddleoedd chwarelyddol o'r 1820au.




*Ffigwr 2 Manylyn Map Degwm Llanddeiniolen, 1838. Mae ffordd y chwarel yn mynd drwy lain 187, sef Ystâd Caeau Uchaf, a ddaeth yn gnewyllyn pentref Deiniolen. Mae rheilffordd Dinorwig yn mynd drwy lain 193, Ystâd Coed Helen. Adeiladwyd Clwt-y-bont yn bennaf ar ffyrdd oedd eisoes yn bodoli yn lleiniau 193 ac 192.*

Sefydlwyd Chwarel Lechi Dinorwig ym 1787 ar ochr ogleddol Llyn Padarn gan Thomas Assheton Smith o'r Faenol. Cyn hynny, ar raddfa fechan y digwyddai'r chwarelydda yn Ninorwig, ond buddsoddodd Assheton Smith mewn seilwaith trafnidiaeth yn ogystal ag yn y chwareli, gan alluogi cynnydd sylweddol mewn cynhyrchu, ac felly mewn cyflogaeth. Ym 1810 cwblhawyd ffordd oedd bron i 8 milltir (12.5 cilomedr) o hyd o'r chwarel, dros dir

uchel Llanddeiniolen, i gei yn y Felinheli ar Gulfor Menai. Disodlwyd y ffordd ym 1824-5 gan reilffordd a dynwyd gan geffylau, sef Rheilffordd Dinorwig, a groesai'r un tir uchel.

Roedd ffordd y chwarel yn mynd drwy dir ystâd Caeau Uchaf, oedd yn eiddo i Robert William Griffith a oedd wedi dechrau gosod tir ar brydles ar gyfer adeiladu erbyn y 1820au (ffigwr 2). Capel Ebenezer oedd un o'r adeiladau cynharaf a sefydlwyd ar ymyl y ffordd ym 1823. Ffurfiwyd cnewyllyn Deiniolen ar hyd y ffordd hon, ynghyd â dwy ffordd ar ongl sgwâr iddi - New Street a North Street. Mae dyddiad ar ddau o'r tai ar High Street, un o 1834 a'r llall o 1836. Adeiladwyd y tai cynnar hyn naill ai ar wahân, mewn parau, neu mewn rhesi byrion o ddau neu dri thŷ, gan ddynion lleol yn ôl pob tebyg, gan gynnwys y chwarelwyr eu hunain. Wrth i anheddle ymsefydlu, anogwyd adeiladwyr hapfasnachol i adeiladu ar raddfa fwy uchelgeisiol. Enghraifft o hyn yw Rhes Fawr, rhes o bedwar tŷ ar ddeg a adeiladwyd ar New Street, a rhes gyfochrog o dri thŷ ar ddeg yn uniongyrchol y tu ôl iddo o'r enw Back New Street. Fe'u hadeiladwyd yn y cyfnod 1832-38, datblygiad hapfasnachol ydoedd gan David Griffith o Gaernarfon, oedd yn adeiladu rhes o dai chwarelwyr tebyg ym Mhenygroes ar yr un pryd.


Âi Rheilffordd Dinorwig trwy ystâd Coed Helen oedd Thomas Ricen piau (ffigwr 2) ble adeiladwyd anheddiadau ar fin y rheilffordd hefyd. Trwy bontio'r afon, roedd y ddwy lan bellach yn hygyrch, y naill i'r llall, a dechreuodd bythynod a thai ymddangos ar lonydd fferm oedd eisoes yn bod ar y ddwy lan. Adeiladwyd melin ym 1840 ger afon Caledffrwd a gynhyrchai lechi ysgol (er bod llechen ar yr adeilad yn honi mai 1835 oedd y dyddiad), gyda deunydd crai'n cael ei gyflenwi gan y rheilffordd.

Ym 1842 disodlwyd Rheilffordd Dinorwig gan reilffordd newydd, Rheilffordd Padarn, ac aeth anheddiadau Deiniolen a Chlwt-y-bont yn fwy ynysig. Fodd bynnag, fe barhaodd datblygiadau yn y ddwy anheddiad yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a cheir tystiolaeth o hyn ym mapiau Arolwg Ordnans 1889. Yn Neiniolen, gosodwyd y strydoedd yng ngwaelod ystâd Caeau Uchaf ar ffurf grid - Tai Caradog, Rhes Marian, Stryd y Tabernacl, Glyn Terrace a Green Terrace (ffigwr 3). Yng Nghlwt-y-bont, roedd datblygiadau'n cynnwys rhesi byrion ar y strydoedd oedd eisoes yno ar ddwy ochr afon Caledffrwd (ffigwr 4).


Yn sgil y boblogaeth gynyddol sefydlwyd isadeiledd cymdeithasol a diwylliannol ar ffurf capeli ac ysgolion. Y gyntaf oedd Ebenezer, capel yr Annibynwyr, a dyna'r enw oedd ar Ddeiniolen yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Saif capel Cefn y Waun y tu allan i'r pentref ac fe'i sefydlwyd fel capel y Methodistiaid Calfinaidd ym 1838. Yn Neiniolen ceid Capel Tabernacl (Methodistiaid Wesleaidd, 1860) a Chapel Disgwylfa (Methodistiaid Calfinaidd, 1864), ac roedd capel Libanus (Bedyddwyr, 1887) a Chapel Maes-y-Dref (Annibynwyr, 1879) yng Nghlwt-y-bont. Adeiladwyd Eglwys Crist (Christ Church) ym 1857, hefyd y tu allan i Ddeiniolen, eglwys Anglicanaidd ydoedd y talwyd amdani gan Thomas Assheton Smith er lles chwarelwyr Dinorwig.

Erbyn 1854 roedd Ysgol Brydeinig yn Neiniolen, ac yn ddiweddarach roedd ysgol anenwadol ar hen ffordd y chwarel, ger yr eglwys. Dywedir i'r chwarelwyr godi £900 i adeiladu Ysgol Brydeinig yr Anghydffurfwyr, oddeutu hanner y gost.

Ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd y cyfnod pan fu i Ddeiniolen ehangu y tu hwnt i ffiniau Ystâd Caeau ar dir a oedd yn eiddo i Ystâd y Faenol. Ehangwyd Stryd Newydd tua'r de i ffurfio Lôn Deiniol, ble codwyd yr Ysgol Brydeinig a Chapeli Disgwylfa a'r Tabernacl. Adeiladwyd Vaynol Terrace (Rhes Faenol bellach) yn uniongyrchol i'r dwyrain (ffigwr 3), ac yn negawd olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ychwanegwyd Rhes Victoria i orllewin Stryd Fawr, ar lôn wreiddiol y chwarel.



*Ffigwr 3 Deiniolen ym 1889, yn dangos y grid o strydoedd i'r de o'r Stryd Fawr a osodwyd ar ôl New Street.*



*Ffigwr 4 Anheddiad Clwt-y-bont ym 1889 Rhed hen reilffordd Dinorwig ar drywydd croeslinol o'r gwaelod ar y dde i'r chwith ar y brig.*

Sefydlwyd Melin Glandinorwig ar gyfer cynhyrchu llechi ysgol ar gyrion Clwt-y-bont, mae'n debyg ym 1879, sef y dyddiad ar ei holwyn ddŵr. Ond dim ond ychydig o dwf economaidd pellach fu yn yr ardal. Cyrhaeddodd Chwarel Dinorwig benllanw ei chynhyrchiant yn y 1890au ac, er na chaeodd hyd 1969, nid chafwyd llawer mwy o adeiladu yn Neiniolen hyd y 1920au. Adeiladwyd Llyfrgell Carnegie ym 1913, ac yn ddiweddarach codwyd y gofeb ryfel yn ei fuarth blaen. Ar ochr arall y ffordd agorwyd Ysgol Gwaun Gynfi

ym 1927. Adeiladwyd datblygiad mawr o dai cymdeithasol - Hafod Oleu a Phentre Helen - yn y 1940au (fffigwr 5). Ers 1945 bu datblygiadau bychain yn y pentref ei hun, gan gynnwys ar safle hen randiroedd, a safleoedd tir glas eraill. Y mwyaf yw Ystâd Rhydfadog, rhwng y prif bentref a'r eglwys.




*Ffigwr 5 Deiniolen ar fap Arolwg Ordnans 1953, yn dangos gosodiad Hafod Oleu a Phentre Helen ar ochr orllewinol y pentref.*

## 4 Cymeriad adeiladau

### *4.1 Arddull a manylion adeiladu*

Stoc dai y pentref sy'n dangos yr arddull leol orau. Y tai unllawr, dwy ystafell, sydd ar brydiau wedi'u hadeiladu ar ongl sgwâr i'r ffordd yw'r mathau o dai cynharaf yn Neiniolen a Chlwt-y-bont. Mae'r rhain yn cynnwys Tan-y-ffynnon, a Ty'n-y-clwt, y ddau yn fythynnod unnos ar fin ffordd y chwarel ond ar Ystâd y Faenol. Hen Siop y Gornel ar y Stryd Fawr, sy'n dyddio o 1834, yw'r unig enghraifft o dŷ ar ongl sgwâr i'r ffordd yng nghanol y pentref (ffigwr 6). Ceir enghreifftiau eraill yn wynebu'r ffordd yng Nghlwt-y-bont. Mae'r tai hyn yn amlwg yn deillio o'r traddodiad gwledig brodorol.

Fodd bynnag, ni pharodd poblogrwydd y bwthyn unllawr yn hir. Roedd y tai deulawr gyda'r ffenestri ar un ochr ble mae un ystafell uwchben y llall, yn hytrach nac ochr yn ochr, yn galluogi i fwy o dai gael eu hadeiladu ar fin y ffordd. Mae Rhes Fawr ar New Street yn enghraifft gynnar o'r math hwn o ddatblygiad ac mae'n rhes ddiwydianol gyda chymeriad trefol (ffigwr 7). Ac eithrio'r tai mwy ar y pen uchaf, mae'r tai o'r un faint gydag agoriadau cyson ac o dan yr un to ar lethr o'r pen i'r gwaelod - enghraifft gynnar o nodwedd amlwg o dai diwydiannol yng ngogledd a de Cymru. Mae mapiau Arolwg Ordnans yn dangos bod rhes o dai tebyg y tu ôl i New Street ar Back New Street, dim ond un sy'n dal i fodoli, a dim

ond cragen yw honnw (ffigwr 8). Felly, nid oedd gerddi gan dai New Street na Back New Street.



*Ffigwr 6 Siop y Gornel ar y Stryd Fawr, hen fwthyn yn dyddio o 1834.*



*Ffigwr 7 Rhes Fawr ar Stryd Newydd, pedwar ar ddeg o dai dwy ystafell a adeiladwyd rhwng 1832 ac 1838 ar safle oleddol.*



*Ffigwr 8 Mae cragen un o dai Cefn Stryd Newydd yn dal i fodoli.*



*Ffigwr 9 Rhes Marian, tai dwy ffenestr a adeiladwyd yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, wedi'u gosod oddi ar fin y ffordd y tu ôl i waliau'r gerddi.*

Mae'r amrywiaeth o dai o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn Neiniolen a Chlwt-y-bont yn dangos gwelliannau yn nhai'r chwarelwyr trwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg; y peth amlycaf yw maint y tai sy'n gynyddol fwy o ran arwynebedd y lloriau ac uchder yr ystafelloedd. Mae tai a adeiladwyd yn y 1830au, ac yn aml yn ddiweddarach, yn agor yn uniongyrchol ar y stryd. Ar ôl canol y ganrif, nid yw rhai o'r rhain bellach yn wynebu'r lôn

yn uniongyrchol, ond maent y tu ôl i erddi bychain o'u blaen gyda waliau o gwmpas y gerddi - megis Tai Caradog, Rhes Marian a Rhes Faenol (ffigwr 9, 10). Ceir tai o safon uwch yn Rhes Victoria, ar ben gorllewinol y Stryd Fawr ac ychydig ar wahân o ganol y pentref, ac ar Ffordd Deiniol (ffigwr 11). Mae ffenestri bwa go fawr yn y rhesi hyn ar y llawr gwaelod ac mae adain ôl iddynt hefyd.



*Ffigwr 10 Rhes Faenol (Vaynol Terrace gynt), a adeiladwyd ger hen ffordd y chwarel ond ar Ystâd y Faenol.*




*Ffigwr 11 Ffordd Deiniol, a adeiladwyd yn negawd olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r muriau wedi'u chwipio ac mae ganddynt architrafau, ffenestri bwa a simneiau o friciau, sydd oll yn eu neilltuo oddi wrth dai cynharach.*

Gan fod y rhan fwyaf o'r tai yn Neiniolen wedi'u hadeiladu ar gyfer chwarelwyr, ychydig o wahaniaeth sydd yn y tai. Fodd bynnag, wrth i safon y tai wella yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, datblygodd hierarchaethau cymdeithasol cynnil, ac efallai mai ansawdd gwahanol y tai a gynorthwyodd a'u hysgogodd i raddau.

Wrth i Ddeiniolen ddatblygu a chymryd arno swyddogaethau anheddiad trefol, denodd bobl broffesiynol lleol. Roedd yn amlwg mai dim ond dosbarth canol bychan oedd yn Neiniolen, megis athrawon a gweinidogion, ac nid oedd gwir dystiolaeth fod gweithwyr o ddosbarth rheolwyr neu oruchwylwyr y chwarel yn byw yn Neiniolen. Ceir tai unigol ar Ffordd Deiniol (ffigwr 12). Yng Nglwt-y-bont hefyd ceir tai wedi'u hadeiladu ar wahân, megis Plas Eryr, efallai ar gyfer y rheolwyr a staff goruchwyliol y Gwaith Llechi Ysgol gwreiddiol ac yn ddiweddarach melin llechi ysgrifennu Glandinorwig.



*Ffigwr 12 Bro Dawel, tŷ a adeiladwyd ar wahân ar Ffordd Deiniol, o waith maen llanw wedi'i gloddio, gyda gwenithfaen llwyd golau wedi'i thrin a chonglfeini.*

Datblygiad tai cyngor o ganol yr ugeinfed ganrif yw Hafod Oleu a Phentre Helen, gyda digonedd o le rhyngddynt mewn arddull gardd-bentref, a'i lonydd bwaog mewn gwrthgyferbyniad llwyr â rhesi unionsyth y bedwaredd ganrif ar ddeg. Adeiladwyd y tai mewn blociau o ddau i bedwar, gyda gerddi mawr, mewn cyferbyniad â dwysedd uchel rhai o dai hŷn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gyda'r tai cyflwynwyd ieithwedd bensaernïol newydd i Ddeiniolen ar ffurf talcendoeon, ffenestri bwa talcen croes, a manylion syml amlwg megis bargodion concrid uwchben y drysau.

Yr adeiladau unigol mwyaf amlwg yn y pentref yw'r adeiladau cyhoeddus - yr eglwys, y capeli, y llyfrgell a'r ysgolion. Nid oes yr un ohonynt wedi'u hadeiladu mewn dull leol ac fe'u dylunwyd gan benseiri o du allan yr ardal gyfagos. Adeiladwyd yr eglwys mewn arddull Addurnedig gan y pensaer esgobaethol, Henry Kennedy. Mae ei meindwr tal, anghymesur i'w weld o wahanol rannau o'r anheddiad, gan gynnwys Clwt-y-bont, serch fod hwnnw wedi'i neilltuo oddi wrth y pentref (ffigwr 13). Mae'n cyfleu'r math o awdurdod oedd ei

eiriolwr, Thomas Assheton Smith, eisiau. Gyda mynwent fawr a ficerdy cysylltiol, mae'n ymwybodol o wledig yn ei lleoliad, fel pe bai wedi bodoli cyn i'r pentref gael adeiladu.



*Ffigwr 13 Saif Eglwys Crist mewn mynwent fawr, ac mewn lleoliad ymwybodol o wledig.*



*Ffigwr 14 Capel Cefn y Waun, 1868. Adeiladwyd ei flaen talcennog o gerrig gorchudd, llanw, gyda cherrig rhywiog wedi'u trin.*

Nepell oddi wrtho y mae capel y Methodistiaid Calfinaidd Cefn-y-waun. Mae agosrwydd yr eglwys a'r capel yn rhoi argraff arwynebol eu bod yn cystadlu â'i gilydd, ond pan adeiladwyd yr eglwys, adeilad cymharol ddi-nod oedd y capel. Fe'i hail-adeiladwyd ym 1868 gan Richard Davies o Fangor. Mae ffasâd Romanésg i'r talcen, ac yn bensaernïol, dyma'r orau o'r capeli lleol sydd wedi goroesi (ffigwr 14). O'i ailadeiladu, dangoswyd llewyrch cynyddol, yn ogystal â hyder a soffistigedigrwydd y gymuned anghydffurfiol. Mae capeli eraill yn llai nodedig eu pensaernïaeth ond serch hynny'n nodweddiadol o'r cyfnod. Ailadeiladwyd Ebenezer ym 1858 gan y Parchedig Thomas Thomas o Landŵr, Abertawe, ac mae'n adeilad clasurol syml gyda cholofnigau a ffenestri pengrwn (ffigwr 15). Mae gan Libanus, a adeiladwyd gan Richard Owens o Lerpwl ym 1877, hefyd ffenestri pengrwn, ond mae'n fwy nodedig oherwydd y deunyddiau a llethr serth y to. Mae'r ddau gapel yn adleisio ffasiwn anghydffurfiol y pryd am dalcenni â ffasadau a ffenestri pengrwn.



*Ffigwr 15 Capel Ebenezer, 1858, gwaith cynnar y Parchedig Thomas Thomas o Landŵr, Abertawe.*

Mae adeiladau addysgiadol a diwylliannol hefyd yn amlwg. Saif Llyfrgell Carnegie, 1913, mewn lleoliad allweddol ar y Stryd Fawr, gyferbyn â'r gyffordd gyda Hafod Oleu. Mae'r ysgol anenwadol yn adeilad uchelgeisiol, yn dyst i'r pwysigrwydd a roddwyd ar addysg gan y cymunedau diwydiannol (ffigwr 16), ac mae ysgolion, gyda'r hen Ysgol Brydeinig ac Ysgol Gwaun Gynfi, yn gwneud cyfraniad arwyddocaol i gymeriad y pentref.

Nid yw seilwaith economaidd Deiniolen yn cael ei gynrychioli'n dda gan mai dim ond ychydig o adeiladau masnachol o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg sy'n bodoli. Nid yw mapiau Arolwg Ordnans yn dangos tafarndai yn Neiniolen nac yng Nghlwt-y-bont mor ddiweddar â 1914. Erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif, siop oedd Siop y Gornel, ond fe'i haddaswyd o

fwthyn. Siop arall oedd Cynfi, y tu allan i'r pentref drws nesaf i'r ysgol anenwadol, er bod ffenestr ei siop bellach wedi ei llenwi (ffigwr 17).



*Ffigwr 16 Yr hen ysgol anenwadol, gyda'i ffenestri nodedig uchel a phengrwn.*




*Ffigwr 17 Cynfi, oedd gynt yn siop, ond a saif y tu hwnt i'r pentref yn agos at yr ysgol anenwadol.*

*4.2 Deunyddiau adeiladu*

Mae deunyddiau adeiladu'n gwneud cyfraniad pwysig i gymeriad Deiniolen a Chlwt-y-bont. Y deunydd mwyaf cyffredin a ddefnyddiwyd yn y pentref oedd cerrig rwbel, yn arbennig ar gyfer tai. Gan amlaf, maent wedi'u cloddio, ac fe'u defnyddid naill ai fel rwbel damweiniol neu fe'u torrid yn flociau ag wyneb petryalog (ffigwr 18). Defnyddid cerrig maes i greu waliau'r gerddi a waliau terfyn eraill, ond roedd hynny'n llai cyffredin mewn adeiladau, er y'u defnyddid ar brydiau ar gyfer waliau cefn yn hytrach na blaen (ffigwr 19). Llechi a gloddwyd yn lleol sydd gan amlaf ar doeau adeiladau.



*Ffigwr 18 Tai yn Stryd y Tabernacl Adeiladwyd y tŷ ar y dde o gerrig rwbel damweiniol, mae'r tai diweddarach ymhellach i'r chwith wedi'u hadeiladu o gerrig wedi'u cloddio a'u llunio'n fras i flociau. Mae pob adwy o dan gapan drws o glwt o lechen. Mae waliau'r gerddi o gerrig llanw'n fwy diweddar. Yn wreiddiol, agorai'r tai yn syth ar y stryd.*



*Ffigwr 19 Yn aml, ar yr ochr neu'r cefn y mae'r deunyddiau adeiladu o'r safon isaf, fel gwelir yma mewn tŷ y tu ôl i Green Terrace, a adeiladwyd o gerrig cae.*

Ar gyfer tai, defnyddiwyd talpiau mawr o gerrig, gyda chapan drws o garreg yn hytrach na bwâu uwchben yr adwyon. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r tai bellach wedi'u chwipio, ac fe welir y defnydd o ddeunyddiau lleol ar ei orau yn waliau'r gerddi. Defnyddiwyd clytiau o llechi wedi'u llifio fel cerrig copa ar waliau corrach gyda rheiliau, ac fel pileri clwydi (Ffig 26). Mae'r defnydd o bileri clwydi llechen yn nodedig iawn ar resi hirion megis Rhes Faenol, Tai Caradog a Rhes Marian (yn yr olaf, mae waliau'r gerddi wedi'u hail-adeiladu mewn llechen ond cadwyd pileri clwydi gwreiddiol) (Gweler ffigwr 9). Mewn rhai llefydd, mae'r rhaniadau rhwng gerddi'n digwydd trwy 'ffensys llechi', neu grawiau, h.y. llechfeini wedi'u gosod ar i fyny a'u clymu at ei gilydd gyda gwifren (ffigwr 21). Deillia hyn o draddoddiad gwledig muriau cae ac mae'n nodweddiadol o ardaloedd llechi gogledd Cymru.



*Ffigwr 20 Waliau gerddi o gerrig rwbel gyda llechi wedi'u llifio'n cael eu defnyddio ar gyfer pileri clwydi a meini copa.*



*Ffigwr 21 Crawiau'n gwahanu'r gerddi yng Nghlwt-y-bont.*

Ar gyfer adeiladau a godwyd yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, y mae nifer ohonynt yn adeiladau o statws, defnyddir amrywiaeth o gerrig wedi'u trin, o leiaf ar gyfer y ffasâd. Gwelir cerrig gorchuddio wedi'u gosod mewn haenau cyson yn Eglwys Crist ac ar dalwyneb melin llechi ysgrifennu Glandinorwig (uwch ben islawr o rwbel damweiniol).

Defnyddiwyd cerrig gorchuddio, llanw ar gyfer ffasâd capel Cefn-y-Waun, sydd, fel yr eglwys, â thywodfeini wedi'u trin. O'r 1870au defnyddiwyd carreg igneaidd â gwawr werdd iddi wedi'i thorri'n ddarnau a'i gosod yn ofalus i roi patrwm 'pafin clytiog' ar y waliau mewn amryw o gyd-destunau, megis yng Nghapel Libanys, ond hefyd ar waliau terfyn mynwent y pentref a melin llechi ysgrifennu Glandinorwig (ffigwr 22). Mae'r driniaeth hon yn elfen nodweddiadol o ogledd-orllewin Cymru yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac fe'i gwelir mewn trefi megis Caernarfon a Chonwy.



*Ffigwr 22 Mae gan wal derfyn melin llechi ysgrifennu Glandinorwig gerrig wedi'u cloddio o siapiau amrywiol ac sydd wedi'u gosod mewn patrwm lloerig, gyda thalpiau llechi ar gyfer y meini copa.*



*Ffigwr 23 Llyfrgell Carnegie, gyda'i flaen wedi'i chwipio a'r colofnigau wedi'u rendro'n llyfn.*

Pur anaml y gwelir briciau yn Neiniolen. Fe'u defnyddir gan amlaf ar gyfer cyrn simneiau a cherrig wedi'u trin o gwmpas ffenestri mewn adeiladau o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae waliau â phlastr garw a chwipiad yn rhan o'r cymeriad lleol, yn arbennig yn Neiniolen. Plastr garw sydd ar Gapel Ebenezer a'i festri ar y cyfan, sy'n nodweddiadol o gapeli diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Daeth chwipiad, yn aml wedi'i gyfuno â phlastr garw, yn nodwedd amlwg o Ddeiniolen yn yr ugeinfed ganrif, yn ychwanegiad at dai rhes hŷn, ond hefyd at adeiladau cyhoeddus megis y llyfrgell ac Ysgol Gwaun Gynfi, a'r tai cymdeithasol yn Hafod Oleu a Phentre Helen.


Ers diwedd yr ugeinfed ganrif, defnyddiwyd clytiau o lechi ar gyfer adeiladu, yn bennaf ar waliau terfyn; tystiolaeth o bwysigrwydd parhaus llechi i hunaniaeth leol (gweler ffigwr 9).

## 5 Ardaloedd Cymeriad

### *5.1 Eglwys y plwyf a'r cyffiniau*

Saif adeiladau cyhoeddus pwysig y tu allan i ben dwyreiniol y pentref, ar ddwy ochr hen ffordd y chwarel, ond maent yn rhan annatod o'r pentref (ffigwr 24). Mae'r adeiladau yma i gyd mewn lleoliad ar dir uchel, gwledig, mewn tirwedd o gaeau gyda muriau cerrig sychion.

Eglwys Crist yw'r adeilad mwyaf blaenllaw yn weledol yn y dirwedd gyfagos oherwydd ei meindwr uchel (gweler ffigwr 13). Saif mewn mynwent eang, ac mae effaith ei meindwr yn cael ei dwysáu oherwydd ei safle ar oledd, fel gweler o'r ffordd tua'r de. Y tu ôl iddi, mae'r ficerdy sydd wedi'i addasu. Mae cymeriad y fynwent yn cael ei gwella oherwydd y beddfeini llechen niferus, nodwedd ranbarthol nodedig.



*Ffigwr 24 Ardal cymeriad eglwys y plwyf a'r cyffiniau.*

Mae capel Cefn-y-Waun, i'r gogledd ddwyrain o'r eglwys, yn llai amlwg yn ei safle gwledig, ond mae iddo dalwyneb Romanésg manwl. Mae ei wal derfyn lled amryliw o gerrig cloddio anghynhenid yn cyferbynnu'n llym gyda waliau'r caeau cysylltiol (ffigwr 25).

Ar ochr dde'r ffordd saif yr hen ysgol anenwadol, ar ongl sgwâr i'r ffordd, nepell ohoni mae Cynfi, tŷ a siop o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ymhellach tua'r gorllewin tuag at y pentref y mae Ty'n-y-Clwt, tŷ unnos unllawr ar ongl dde i'r ffordd.




*Ffigwr 25 Capel Cefn y Waun. Wal derfyn o feini llanw wedi'u cloddio.*

*5.2 Canol y pentref*

High Street, New Street a North Street sy'n ffurfio cnewyllyn Deiniolen a safant ar hen ystâd Caeau Uchaf (ffigwr 26). Cychwynnodd gwaith adeiladu yn y 1820au ar hyd ffordd y chwarel, datblygiadau ar raddfa fechan gan chwarelwyr ac adeiladwyr hapfasnachol. Adeiladwyd Capel Ebenezer ar yr un pryd â'r datblygiad cynnar.

Mae uchder adeiladau High Street yn amrywio, gan ddangos bod y stryd yn gyfuniad o wahanol raglenni adeiladu ac adeiladwyr a gododd resi byrion, parau ac, ar brydiau, dai unigol hyd yn oed (ffigwr 27). 1836 yw'r dyddiad ar un o'r tai hyn, ond mae tai eraill yn dalach ac yn amlwg yn deillio o ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Serch hynny, mae'r Stryd Fawr wedi cadw cymeriad yr anheddiad darniog, di-gynllun a ymddangosodd ar fin y ffordd. Pery'r thema hon ar North Street (ffigwr 28), ond ar New Street, Rhes Fawr yw'r enghraifft gynharaf o stryd a adeiladwyd mewn datblygiad unigol (gweler ffigwr 7).




2 Village centre
3 Hafod Oleu and Pentre Helen

*Ffigwr 26 Canol y pentref ac ardaloedd cymeriad Hafod Oleu a Phentre Helen*



*Ffigwr 27 Stryd Fawr, gyda thai o'r 1830au i dai talach diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae rhai o'r tai cynharach, llai wedi cael eu huno i greu anheddiadau mwy, fel gweler ar y dde.*



*Ffigwr 28 Mae gan y tai ar Borth y Gogledd ddyddiadau gwahanol, o'r 1830au ymlaen, a dim ond dau ohonynt sydd â'u hwynebau carreg gwreiddiol o hyd. Mae waliau'r gerddi'n ychwanegiad diweddarach.*

Ail gymal y datblygu oedd adeiladu rhesi ar yr un trywydd ag oedd eisoes yn bodoli, gan greu grid o strydoedd ar ochr ddeheuol y Stryd Fawr. Yn olaf, roedd rhesi pellach yn ymwthio y tu hwnt i derfynnau gwreiddiol yr anheddiad, sef Rhes Victoria a Rhes Faenol.

Adeiladwyd y tai o gerrig rwbel, weithiau gyda meini mawr amlwg a chapanau mawr uwchben y ffenestri a'r drysau, o dan do llechi (gweler ffigwr 18). Mae'r rhan fwyaf o'r tai wedi'u rendro neu'u chwipio yn ystod yr ugeinfed ganrif, ac mae llawer o'r ffenestri a'r drysau wedi eu newid, yn aml gyda deunyddiau cyfoes anghydnaws megis uPVC. Mae rhai parau o dai bychain wedi eu cyfuno'n annedd unigol.

Mae'r tai cynnar yn agor yn uniongyrchol i'r ffordd. Yn ddiweddarach, fe'u gosodwyd y tu ôl i waliau gerddi. Mae'r waliau'r gerddi o gerrig rwbel noeth, neu lechi cyfoes, nifer ohonynt gyda rheiliau, yn bwysig i gymeriad y strydoedd ac i hanes cynnydd tai'r dosbarth gweithiol yn ystod y bedwaredd ganrif ar ddeg (ffigyrau 9, 20). Mae pileri clwydi o lechen yn gyffredin iawn yma.

*5.3 Hafod Oleu a Phentre Helen*

Ystâd o dai cymdeithasol yw Hafod Oleu a Phentre Helen a adeiladwyd yn y 1940au ar ffurf gardd-fastref, gyda strydoedd bwaog a thai mewn blociau o ddau i bedwar (ffigyrau 16, 19). Saif Ysgol Gwaun Gynfi ar y pen uchaf.

Mae'r tai a'r ysgol wedi'u chwipio sy'n nodweddiadol o'r ardal hon yn yr ugeinfed ganrif. Gwelir gwaith chwipio yn yr holl ystâd ac, er bod y drysau a'r ffenestri gwreiddiol wedi'u

newid, mae'r ardal wedi cadw llawer o'i chymeriad gwreiddiol ac mae'n dyst i'r cynnydd a wnaed mewn safonau tai yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif.

Mae Hafod Oleu'n dilyn trywydd llwybr cynharach, er ei bod bellach wedi'i lledaenu'n sylweddol, ond codwyd waliau o gerrig cae ar ddwy ochr y ffordd, penderfyniad gwybyddus i gynnwys elfen o'i lleoliad gwledig yn yr ystâd dai newydd.




*Ffigwr 29 Hafod Oleu, a welir yma gyda thai mewn blociau o ddau a phedwar, gyda wal flaen o gerrig cae ar hyd trywydd hen fur y caeau.*

*5.4 Ffordd Deiniol (Deiniol Road)*

Datblygodd pen deheuol Deiniolen ar hyd Ffordd Deiniol, sy'n barhâd o Stryd Newydd ond ar dir Ystâd y Faenol (ffigwr 30). Datblygodd y stryd o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac un o'r adeiladau cynharaf oedd yr Ysgol Brydeinig. Adeiladwyd dau gapel ar y stryd hon, y ddau bellach wedi'u dymchwel, ac mae safle'r ddau wedi'i ailddatblygu ar gyfer tai cyfoes.

Mae Ffordd Deiniol, serch hynny, wedi cadw ei gymeriad hanesyddol, gydag adeiladu diwylliannol a phreswyl. Ar yr ochr orllewinol, saif rhes o dai uwchraddol, y tu ôl i waliau'u gerddi, ac mae ganddynt ffenestri pengrwn a manylion o friciau. Yn agos at fod gyferbyn, mae tai unigol a ddylunwyd ar gyfer yr egin ddosbarth proffesiynol, a'r hen Ysgol Brydeinig, gyda muriau o blastr garw sy'n nodweddiadol o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg (ffigwr 31). Ar waelod y ffordd mae'r hen Weithfa Llechi Ysgol yn dyddio o 1840, sydd wedi newid yn sylweddol.

Mae mynwent fawr, hen fynwent Capel Disgwylfa, sydd â waliau terfyn o gerrig maes (sef, hen wal cae i bob pwrpas) a giât fynediad gyda waliau o boptu iddo o gerrig llanw wedi'u cloddio. Yn y fynwent ei hun, mae'r beddrodau o lechi llifiedig gan amlaf, gydag ysgythriadau a cherfio a cherfweddau o goethder amrywiol (ffigwr 32).




4 Ffordd Deiniol / Deiniol Road
5 Clwt-y-bont (N side)
6 Dinorwig Railway
7 Clwt-y-bont (S side)
8 Glandinorwig writing-slate mill (Felin Sarn)

*Ffigwr 30 Ardaloedd Cymeriad Ffordd Deiniol a Chlwt-y-bont*



*Ffigwr 31 Yr hen Ysgol Brydeinig ar Ffordd Deiniol, gyda muriau â'r plastr garw diweddarach.*




*Ffigwr 32 Mae beddrodau llechi'n ychwanegu at gymeriad unigryw rhanbarthol treftadaeth adeiledig Deiniolen.*

*5.5 Clwt-y-bont (ochr ogleddol)*

Ar ochr ogleddol Clwt-y-bont mae fordd sy'n dilyn trywydd o'r dwyrain i'r gorllewin, o'r fynwent ar droed Ffordd Deiniol yn y dwyrain i Blas Eryr yn y gorllewin (ffigwr 30). Fe'i croesir ar letraws gan linell Rheilffordd Dinorwig.

Ar hyd y ffordd hir sy'n ffurfio ochr ogleddol Clwt-y-bont ceir adeiladau a godwyd ar adegau gwahanol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif. Yr ardal hon o'r dwyrain i'r gorllewin yw'r ardal gyda'r cymeriad hanesyddol gwanaf, ar waethaf bod hen Gapel Libanys yn adeilad amlwg (ffigwr 33). Mae dwy res o dai o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ar yr ochr ogleddol gyferbyn â Chapel Libanys, wedi'u dymchwel fwy neu lai, felly hefyd y capel arall, Maes y Dref. Fodd bynnag, ar ochr ddeheuol y ffordd, ceir llwybrau culion sy'n cysylltu'r tai a wynebai reilffordd Dinorwig ac maent yn cynnal elfen bwysig o batrwm yr anheddiad wreiddiol (ffigwr 34).

Mae tai unllawr a deulawr o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ar hyd y ffordd hon, er eu bod oll i raddau wedi'u haddasu, ac yn y pen gorllewinol mae Plas Eryr, a adeiladwyd, mae'n debyg, ar gyfer rheolwr Melin Glandinorwig (ffigwr 35). Yma ac acw rhwng y tai hyn o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg mae ystadau tai o'r ugeinfed ganrif megis Maes Gwylfa a Stâd Macpela. Mae'r rhain wedi llenwi lleiniau o dir ar fin y ffordd nad oedd wedi'u datblygu, ac yn hynny o beth, maent yn parhau â'r datblygiad darniog a ddechreuodd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg.




*Ffigwr 33 Manylyn o Gapel Libanys, â'i wyneb o flociau a gloddiwyd ar hap ac a roddwyd at ei gilydd mewn patrwm lloerig, a chydag ffenestri wedi'u haddurno â briciau.*



*Ffigwr 34 Mae'r llwybrau culion rhwng tai yn nodwedd sy'n nodedig o Glwt-y-bont.*



*Ffigwr 35 Plas Eryr, tŷ mawr yn ei dir ei hun, ar gyfer rheolwr melin llechi ysgrifennu gyfagos Glandinorwig yn fwy na thebyg, ble mae hierarchaeth y gweithle'n cael ei adlewyrchu yn y pentref.*



*Ffigwr 36 Ceir tai deulawr ar hyd llinell Rheilffordd Dinorwig ar y ddwy ochr, ac mae cefn Capel Libanys yn y cefndir.*

*5.6 Rheilffordd Dinorwig*

Mae llinell Rheilffordd Dinorwig yn mynd ar drywydd o'r de-ddwyrain i'r gogledd-orllewin, drwy Glwt-y-bont (ffigwr 30). Fe'i hadeiladwyd ym 1924 ond mae bellach yn ffordd, gyda phont wedi'i haddasu ar y pen de-ddwyrain. Mae llai o ddatblygu ar y ffordd hon nac ar hyd ffyrdd eraill yng Nghlwt-y-bont, ond mae yn dangos y modd y denwyd anheddu gan seilwaith trafnidiaeth, hyd yn oed rheilffordd a dynwyd gan geffyl (ffigwr 36).

*5.7 Clwt-y-bont (ochr ddeheuol)*

Ar ochr ddeheuol y ffordd mae datblygiad llinol o dai o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a adeiladwyd yn unigol neu mewn rhesi bychain (ffigwr 30). Roedd y llwybr yn bodoli fel lôn fferm pan gynhaliwyd arolwg y Degwm ym 1838, a datblygodd yn anheddiad llinol yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gyda chroesiad i'r afon trwy bont Rheilffordd Dinorwig ar y pen dwyreiniol. Erbyn cyfnod Arolwg Ordnans 1889, roedd yr anheddiad wedi cyrraedd ei maint cyfredol.

Cymeriad anhepgor yr ardal hon yw'r amrywiaeth o dai sy'n deillio o ddatblygiadau darniog (ffigwr 37). Mae tai deulawr, â'r ffenestri'n bennaf ar un ochr y drws, o uchder gwahanol, rhai yn agor ar y lôn, ac eraill y tu ôl i waliau isel eu gerddi. Mae Tai Glyndŵr yn adnabyddus am fod ganddynt isloriau (efallai eu bod yn wreiddiol yn rhes o dai deulawr gyda thai unllawr o danynt) (ffigwr 38), a daw'r pentref i ben ar ei ben gorllewinol ger Pen yr Olchfa, rhes fer ar ongl sgwâr i'r ffordd. Ceir tai unllawr a thai unigol mwy yno hefyd.



*Ffigwr 37 Min Afon, mae'r ffordd sy'n rhedeg trwy ochr ddeheuol Clwt-y-bont yn ffordd gyda rhesi byrion o dai deulawr ar bopty'r ffordd.*

Adeiladwyd y tai o garreg rwbel maes, gyda chapannau drws o garreg, a tho llechi, er bod y rhan fwyaf bellach wedi'u rendro. Cerrig rwbel yw waliau'r gerddi hefyd, er bod y mwyafrif

wedi'u rendro. Mae rhai ffensys llechi wedi goroesi, ac maent yn gwahanu'r gerddi ac i'w gweld o'r ffordd.



*Ffigwr 38 Tai Glyndŵr, gydag isloriau.*




*Ffigwr 39 Melin llechi ysgrifennu Glandinorwig, adeilad rhestredig gradd II* a elwir bellach, Melin Sarn. Ar y llawr uchaf, mae'r wyneb o garreg gorchuddio, oddi tano ceir rwbel damweiniol y llawr is.*

*5.8 Hen felin llechi ysgrifennu Glandinorwig (Felin Sarn yn awr)*

Hen felin llechi ysgrifennu melin Glandinorwig oedd Felin Sarn, ar ochr ddeheuol y ffordd ar ben gorllewinol Clwt-y-bont (ffigwr 30), a adeiladwyd c. 1879 er mwyn troi deunydd crai yn llechi at ddefnydd ysgolion. Yn wreiddiol roedd ganddo adeiladau ar ddwy ochr y ffordd, ond mae'r rhai ar yr ochr ogleddol wedi'u dymchwel. Adeiladwyd y felin rhwng dwy annedd gynharach, tyddyn bychan a bwthyn, Dorlan Goch.

Cymeriad diwydiannol sydd i'r ardal hon yn y bôn. Mae adeilad deulawr y felin yn teyrnasu dros Felin Sarn, ble ceir adeiladau tu allan mewn amryw gyflwr, a hen adeilad fferm a addaswyd er defnydd diwydiannol. Adeiladwyd y brif felin o gerrig rwbel llanw a gloddwyd ac mae ei llawr uchaf o garreg gorchuddio wedi'i chloddio, y cyfan wedi'i orffen gyda bric o dan do llechi (ffigwr 39). Rhed ceuffos ddwbwl dan dwnel bwaog o dan fuarth y prif adeilad (ffigwr 40). Mae wal derfyn yn wynebu'r ffordd a wnaed o ddarnau o gerrig mâl a gloddwyd ac a roddwyd at ei gilydd mewn patrwm damweiniol, a chyda rhagfur castellog a grëwyd o flociau llechi'n llorweddol (gweler ffigwr 25).



*Ffigwr 40 Cwlfertiau carreg o dan fuarth melin llechi ysgrifennu Glandinorwig.*

**6 Datganiad Arwyddocâd**

Mae Deiniolen a Chlwt-y-bont yn anheddiadau o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a adeiladwyd yn wreiddiol ar gyfer chwarelwyr chwarel lechi Dinorwig, ond ar dir oedd y tu hwnt i reolaeth perchenog y chwarel. Roedd Deiniolen, a elwid Ebenezer yn wreiddiol, yn un o nifer o anheddiadau a adeiladwyd gan chwarelwyr yn ardal llechi Gogledd Cymru ac a enwyd ar ôl y capel cynharaf, fel Bethesda, Saron, Carmel a Bethel.

Pennwyd patrwm yr anheddiad gan berchenogaeth tir a ffordd i'r chwarel a rheilffordd. Cnewyllyn Deiniolen yw'r Stryd Fawr, Porth y Gogledd a Stryd Newydd, a adeiladwyd ar

ystâd bychan ar dir uchel, ac fe ychwanegwyd strydoedd eraill atynt yn ddiweddarach ar ffurf grid, cyn i'r anheddiad dyfu y tu hwnt i'w ffiniau gwreiddiol, yn bennaf mewn modd llinol ar hyd ffyrdd oedd eisoes yn bodoli. Datblygodd Clwt-y-bont mewn modd llinol ar hyd llwybrau fferm oedd eisoes yn bod, a galluogwyd mynediad rhyngddynt gan bont reilffordd dros afon Caledffrwd.

Mae tai yn dal i fod yn Neiniolen a Chlwt-y-bont o wahanol fath sy'n dangos traddodiadau cefn gwlad brodorol a threfol. Maent yn dangos gwelliannau yn ansawdd tai'r gweithwyr wrth i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg fynd rhagddi, ac mae'r hierarchau cymdeithasol y maent yn eu datgelu'n rhan bwysig o'r cymeriad. Ceir bythynnod unllawr sy'n nodweddiadol o dyddynod tlotach cefn gwlad Sir Gaernarfon, ond y tai deulawr â'r ffenestri ar un ochr y drws a welwyd fel y rhai mwyaf addas ar gyfer datblygu trefol, a dyma'r math mwyaf cyffredin yn y ddwy anheddiad. Yn Rhes Fawr ar Stryd Newydd ceir rhes ddiwydiannol brin sy'n dal i fodoli ers y 1830au. Mae'r tai dwy ystafell yma, heb erddi, yn gofnod o ddechreuad cronoleg o ddatblygiad tai yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg sy'n cynnwys rhesi gyda gerddi bychain yn y blaen a'r cefn (Rhes Marian, Tai Caradog), yna cynnydd graddol ym maint a nifer yr ystafelloedd, gan ddod i benllanw yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg gyda thai mwy, gydag adain yn y cefn a ffenestri bwa (Ffordd Deiniol, Rhes Victoria).


Mae capeli, yr eglwys a'r ysgolion yn dal i fod yn adeiladau blaenllaw, nodwedd sy'n diffinio anheddiadau diwydiannol yng Nghymru. Saif Ebenezer ar y Stryd Fawr yng nghanol y pentref, er mai'r adeilad coethaf, o safbwynt pensaernïol, yw Cefn y Waun, sy'n arwydd o'r hyder cynyddol a soffistigedigrwydd y cynulleidfaoedd anghydffurfiol Cymreig tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae dwy o ysgolion Deiniolen yn dyddio o gyfnod cyn addysgo orfodol ac yn ymgorffori'r pwysigrwydd a roed ar addysg yn y cymunedau diwydiannol.

Mae deunyddiau adeiladu'n gwneud cyfraniad pwysig i gymeriad Deiniolen a Chlwt-y-bont. Cerrig a gloddwyd yn lleol neu gerrig maes a ddefnyddiwyd ar gyfer y mwyafrif o'r adeiladau, ond defnyddiwyd cerrig cloddio a fewnforwyd ar gyfer adeiladau o statws megis eglwys y plwyf a chapel Cefn-y-Waun. Defnyddir llechi mewn ffyrdd dyfeisgar, fel ffensys i erddi, neu grawiau, sydd wedi goroesi yng Nghlwt-y-bont, ac ar gyfer pileri clwydi o lechen wedi'i llifio, sy'n gyffredin trwy'r anheddiad i gyd.

**7 Statws Ardal Cadwraeth**

Mae cnewyllyn hanesyddol Deiniolen yn ardal o bensaernïaeth a diddordeb hanesyddol arbennig a all fod yn gymwys am statws Ardal Cadwraeth. Mae'n gyfyng a diffiniedig, heb ymyrraethau ôl-ddiwydiannol arwyddocaol, ac mae'n gyfwerth ag ardal cymeriad canol y pentref (ffigwr 41). Serch y newidiadau i'r ffenestri, y drysau ac wynebau'r waliau, ceidw ei gymeriad anffurfiol, darniog ac mae'n oroesiad hanesyddol gwerthfawr o batrwm anheddiad diwydiannol sydd prin yn goroesi.

Mae Clwt-y-bont yn parhau i fod o ddiddordeb hanesyddol sylweddol fel anheddiad a dyfodd o gwmpas Rheilffordd Dinorwig. Mae Clwt-y-bont ar ochr ddeheuol yr afon wedi'i chadw'n well na'r ochr ogleddol, gan gadw cymeriad anffurfiol datblygiad darniog. O'i gynnwys gyda llinell Rheilffordd Dinorwig, a Chapel Libanys, tirnod yn yr anheddiad, gellid ei ystyried ar gyfer statws Ardal Cadwraeth (ffigwr 42).



*Ffigwr 41 Ffin arfaethedig Ardal Gadwraeth Deniolen.*



*Ffigwr 42 Ffin Ardal Gadwraeth bosibl yng Nghlwt-y-bont.*

Byddai cynnwys ardal fwy yn Neiniolen yn broblemus. Cafwyd colledion arwyddocaol, yn arbennig capeli Tabernacl a Disgwylfa. Cafwyd datblygiad newydd sylweddol hefyd, ac er nad oedd yn fawr, lleihawyd cydlyniad hanesyddol yr anheddiad yn ei chyfanrwydd. Mae hyn yn arbennig o amlwg ar ochr ogleddol Clwt-y-bont, ble cafwyd rhai datblygiadau bychain ac o ble collwyd rhai tai o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn ogystal â Chapel Maes y Dref.

Mae rhai ffactorau negyddol eraill sy'n lleihau cyfanrwydd y dreftadaeth adeiledig, er y gallai statws Ardal Cadwraeth ddechrau ymdrin â rhai ohonynt. Mae'r mwyafrif o'r tai wedi'u rendro, tuedd a ddechreuodd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac sydd wedi parhau hyd y cynllun Arbed a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2009. Er nad oedd hwn bob amser yn ffactor negyddol, yn nifer y rhesi mae'r amrywiaeth o orffeniadau a lliwiau wedi erydu undod hanfodol y math hwn o dŷ. Mae ffenestri a drysau wedi cael eu newid, yn aml gan ddefnyddio deunyddiau cyfoes anghydnaws, megis uPVC, er bod modd dad-wneud y newidiadau hyn yn y tymor hir.

## 8 Cyfeiriadau

*Ffynonellau cartograffeg*

Arolwg Degwm Llanddeiniolen, 1838.

Mapiau cyfres sirol Arolwg Ordnans, 1889, 1900, 1914.

*Ffynonellau printiedig*

Davidson, A., Jones, G., a Gwyn, D., 1994, *Gwynedd Quarrying Landscapes: Slate Quarries.* Adroddiad Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd 129.

Gwyn, David, 2001, 'The industrial town in Gwynedd', *Hanes Tirwedd* 23, 71-89.

Gwyn, David, 2006, *Gwynedd: Inheriting a Revolution.* Chichester: Phillimore.

Gwyn, David, 2015, *Welsh Slate: Archaeology and History of an Industry.* Aberystwyth: RCAHM Wales.

Haslam, Richard, Orbach, Julian and Voelcker, Adam, 2009, *The Buildings of Wales: Gwynedd.* Llundain: Yale University Press.

Hughes, Stephen, 2003, 'Thomas Thomas, 1817-1888: the first national architect of Wales', *Archaeologia Cambrensis* 152, 69-166.

Lindsay, Jean, 1974, *A History of the North Wales Slate Industry.* Newton Abbot: David & Charles.

Lowe, Jeremy, 1985, *Welsh Industrial Workers Housing.* Caerdydd: Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Richards, Alun John, 2007, *Gazeteer of Slate Quarrying in Wales.* Pwllheli: Llygad Gwalch.

*Ffynonellau Ar-lein*


Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd, Cymeriad Tirwedd Hanesyddol ar gyfer Deiniolen a Chlwt-y-bont; ar-lein yn http://www.heneb.co.uk/hlc/arfon/arfon3.html

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd, Cofnod Amgylchedd Hanesyddol, ar-lein yn http://www.cofiadurcahcymru.org.uk/

Cofnod Henebion Cenedlaethol, RCAHM Cymru ar-lein yn http://coflein.gov.uk/

**Atodiad 1: Adeiladau rhestredig yn Neiniolen**

| Adeiladau Rhestredig | Cyfeirnod yr adeilad rhestredig | Gradd |
|---|---|---|
| Capel Cefn-y-Waun gan gynnwys festri/ystafell ysgol a waliau'r blaengwrt | 19954 | II |
| Adeiladwyd Eglwys Crist (Christ Church) | 22659 | II |
| Felin Sarn [hen felin llechi ysgrifennu Glandinorwig] | 80871 | II* |



*Ffigwr 43 Adeiladau rhestredig yn Neiniolen*